Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DL|415

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd i The Wilderness Trust (Cymru) Cyf**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Derbyniwyd cais am gyllid gan The Wilderness Trust (Cymru) Cyf i gefnogi eu prosiect: Gwydnwch Pobl Ifanc - Y Gig Mawr i bobl ifanc 16-18 oed.
Trefnwyd noson beilot gydag adloniant lleol y llynedd yn Llanidloes ar gyfer pobl 16-18 oed. Roedd hwn yn ddigwyddiad heb alcohol ac yn cynnwys gweithdai i ddysgu am gadw'n ddiogel rhag sbeicio diodydd, iechyd rhywiol, perthnasau iach, gyrru'n ddiogel ac adnabod cyfreithiau a fframweithiau cymdeithasol wrth i bobl yn eu harddegau symud ymlaen i fod yn oedolion. Roedd cyrff statudol lleol fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Tân yn bresennol ac yn cefnogi'r digwyddiad.
Yn dilyn ymlaen o lwyddiant y llynedd, mae The Wilderness Trust yn trefnu digwyddiad arall yn ystod hydref 2025 gyda'r un sefydliadau Statudol, gan ddarparu lle diogel i bobl ifanc fwynhau eu cwmni ei gilydd a chael mynediad at wybodaeth er mwyn adeiladu ymddygiad cyfrifol, diogel a llawn parch.
Mae'r prosiect hwn yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o Atal Niwed.

**Argymhelliad:**
Darparu rhodd o £500.00 o'r Gronfa Gwerthiant Eiddo a Ddarganfuwyd fel cyfraniad at gostau'r prosiect.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 14/10/2025**